# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion Cryno: HWLG(3)-02-11: 3 Chwefror 2011

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV yn:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_200000_03_02_2011&t=0

**Amser: 9.00 – 10.15**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jonathan Morgan, Gogledd Caerdydd (Cadeirydd)
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Christine Chapman, Cwm Cynon (yn dirprwyo dros Val Lloyd, Dwyrain Abertawe)
Veronica German, Dwyrain De Cymru
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Nick Ramsay, Mynwy

### Tystion

Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Lleol (Eitem 2)
David Powell, Pennaeth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (Eitem 2) (Eitem 2)
Reg Kilpatrick, Pennaeth Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (Eitem 2)
Frank Cuthbert, Pennaeth Tîm Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru (Eitem 2)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Anne Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Helen Mary Jones a Val Lloyd. Roedd Christine Chapman yn dirprwyo dros Val Lloyd.

### Eitem 2: Craffu Cyffredinol a Chynnydd y Llywodraeth o ran rhoi argymhellion ymchwiliadau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar waith yn y Trydydd Cynulliad

Papur: HWLG(3)-02-11-p1

2.1 Atebodd y Gweinidog gwestiynau'r Pwyllgor am gynnydd o ran rhoi ar waith argymhellion ymchwiliadau'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i Drefniadau Craffu a Throsolygu Llywodraeth Leol a Chyflog Cyfartal mewn Llywodraeth Leol.

2.2 Atebodd y Gweinidog hefyd gwestiynau craffu cyffredinol.

### Camau i'w cymryd

Y Gweinidog i ddarparu i'r Pwyllgor nodyn am waith sydd wedi ei wneud gan ei isadran ar sefydlu cymhwyster academaidd mewn gwaith craffu llywodraeth leol.

Y Gweinidog i wneud yn eglur a yw'r ffigur a ddarparwyd yn ei bapur am ganran y gweithlu cymwys sydd wedi cyflwyno hawliadau Tribiwnlys Cyflogaeth yn 'ffigur hollgynhwysol' neu a yw'n ymwneud ag awdurdodau lleol unigol.

Y Gweinidog i ddarparu i'r Pwyllgor nodyn am rôl undebau llafur o ran yr elfennau ariannol yn nyletswydd awdurdod lleol, yn enwedig mewn cysylltiad â threth gyngor, fel sydd wedi ei amlinellu yn y Memorandwm Dealltwriaeth rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r TUC.

Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr arolwg sydd i ddod o Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru.

#### Eitem 3: Cynnig dan Orchymyn Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 4

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, dan Reol Sefydlog 10.37, i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, er mwyn trafod yr adroddiad

drafft ar Wasanaethau Orthodontig yng Nghymru.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### Camau i'w cymryd

Cytunwyd ar yr adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi.

### Papurau i'w nodi

Nododd y Pwyllgor y papurau a ganlyn:

HWLG(3)-02-11-p3 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ymchwiliad y Pwyllgor i Anhwylder Straen wedi Trawma

HWLG(3)-02-11 Cofnodion y cyfarfod blaenorol